Annwyl Barchedig Deian Evans

Rydw i'n ysgrifennu i ddiolch i'r OGGA ac i chi am yr ysgoloriaeth a alluogodd fi i fynd i Gwrs Cymraeg Cymdeithas Madog yn Camrose, Alberta, eleni.

Rydw i am ddiolch i chi, nid yn unig am eich cefnogaeth, ond hefyd am eich gwaith dros gadw'r iaith Gymraeg yn fyw. Diolchaf hefyd am fy ystyried yn deilwng o'r ysgoloriaeth a hynny'n fy helpu i ymdrechu dros y Gymraeg.

Er mod i'n hannu o deulu Cymraeg, anaml siaredid yr iaith ar yr aelwyd. Felly ychydig bach o'r iaith ddysges i yn blentyn. Felly, er gwaetha'r pellter wrth fy mherthnasau yng Nghymru, rydw i'n daer iawn i ddysgu mwy am fy nhreftadaeth, ac yn awyddus iawn i glywed, siarad ac ymarfer Cymraeg. Ces i'r cyfle hwn yn y Cwrs Cymraeg eleni. Diolch i chi eto am y fraint.

Yn ddiffuant,

Christopher Morgan

O.N. Roedd Co^r y Cwrs yn well na dim! Diolch i ti.

(eglurhad: Deian oedd arweinydd y Co^r yn Camrose ac roedd Christopher yn aelod brwd. Hefina)